Y Busnes o Ailgylchu

Canllaw Cyfathrebu ar gyfer Perchnogion Parciau Carafanau, Meysydd Gwersylla a Pharciau Gwyliau

Y BUSNES O AILGYLCHU | THE BUSINESS OF RECYCLING | WRAP CYMRU

Pwrpas y canllaw

Pwrpas y canllaw hwn yw helpu perchnogion parciau carafanau, meysydd gwersylla a pharciau gwyliau godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ailgylchu ymysg staff ac ymwelwyr ac annog gwahanu a chasglu deunyddiau gwastraff i'w hailgylchu yn gywir.

Mae'n cynnwys:

- crynodeb o'r Gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru;
- buddion ailgylchu;
- negeseuon allweddol;
- sut i ddefnyddio eich sianeli cyfathrebu presennol;
- asedau cyfathrebu ategol a sut i'w defnyddio; a
- lle i gael mwy o help a gwybodaeth

Pwrpas y canllaw 2
Cyfraith Ailgylchu yn y Gweithle 3
Buddion ailgylchu 4
Negeseuon allweddol 5
Defnyddio eich gwefan 6
Cyfryngau cymdeithasol 7
Cadarnhad llogi 9
Asedau cyfathrebu ategol 10
Mwy o help a gwybodaeth 12

Y BUSNES O AILGYLCHU THE BUSINESS OF RECYCLING | WRAP CYMRU

Cyfraith Ailgylchu yn y Gweithle

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i holl weithleoedd, yn cynnwys parciau carafanau, meysydd gwersylla a pharciau gwyliau, gyflwyno'r deunyddiau ailgylchadwy canlynol i'w casglu, ar wahân i wastraff cyffredinol na ellir ei ailgylchu:

- **Gwastraff bwyd;**
- **Poteli a jariau gwydr;**
- **Metelau, plastigion a chartonau** - gellir cymysgu'r deunyddiau hyn yn yr un cynhwysydd; a
- **Cardbord a phapur** – gellir cymysgu'r deunyddiau hyn yn yr un cynhwysydd.

Cod Ymarfer

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu **Cod Ymarfer** ar gyfer gwahanu gwastraff fel rhan o'i ymdrechion i gynyddu ailgylchu ledled y wlad. Mae'r cod hwn yn nodi gofynion penodol o ran sut i gydymffurfio â'r gyfraith a sicrhau bod gwastraff yn cael ei wahanu yn y ffynhonnell er mwyn hwyluso mwy o ailgylchu a sicrhau bod deunyddiau o ansawdd uchel yn cael eu casglu.

Y Busnes o Ailgylchu

Mae Cymru'n ail yn y byd ar hyn o bryd o ran ailgylchu gwastraff o gartrefi. Mae'r gyfradd ailgylchu bresennol o gartref yn ychydig mwy na 65% ac mae'n helpu atal oddeutu 400,000 o dunelli o allyriadau carbon bob blwyddyn. Y nod yw adeiladu ar lwyddiant ailgylchu o gartrefi a sicrhau cyfraddau ailgylchu uchel ar draws weithleoedd hefyd, yn cynnwys parciau carafanau, meysydd gwersylla a pharciau gwyliau.

I helpu sefydliadau ddeall a gallu gweithio gyda'r rheoliadau, mae WRAP Cymru wedi datblygu **gwefan newydd Y Busnes o Ailgylchu**. Mae hyn yn darparu canllawiau ac adnoddau am ddim i'w lawrlwytho i helpu sefydliadau ddechrau neu wella ar eu hailgylchu yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys canllawiau penodol ar gyfer parciau carafanau, meysydd gwersylla a pharciau gwyliau

Cymru yn Ailgylchu

Cymru yn Ailgylchu yw ymgyrch ailgylchu cenedlaethol Cymru. Fe'i cefnogir a'i ariennir gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i fabwysiadu'n lleol gan gynghorau a phartneriaid eraill, a nod yr ymgyrch yw annog dinasyddion i ailgylchu mwy o bethau'n fwy aml o amgylch eu cartrefi.

Gan fod y gweithgareddau cyfathrebu mewn parciau carafanau, meysydd gwersylla a pharciau gwylia yn bennaf yn wynebu defnyddwyr, mae brandio adnabyddus Cymru yn Ailgylchu wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer yr asedau cyfathrebu, i fanteisio ar ddeunyddiau sydd eisoes wedi'u profi'n effeithiol.



Buddion ailgylchu

Mae gwahanu deunyddiau ailgylchadwy'n helpu gwella ansawdd a swm y deunyddiau a gesglir.

Mae hyn yn helpu cynyddu cyfraddau ailgylchu a bydd yn helpu Cymru fod yn genedl ailgylchu orau'r byd!

Mae'n lleihau gwastraff a gaiff ei anfon i dirlenwi ac i'w losgi.

Bydd hyn yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at leihau allyriadau carbon.

Mae'n cefnogi'r economi gylchol.

Trwy gynyddu swm ac ansawdd y deunyddiau eilgylch y gellir wedyn eu defnyddio gan weithgynhyrchwyr yng Nghymru a lleihau'r deunyddiau crai a ddefnyddir.

Mae'n helpu arbed arian.

Mae ailgylchu'n costio llai na gwaredu gwastraff.

Mae'n arbed ynni.

Mae defnyddio deunyddiau eilgylch yn y broses weithgynhyrchu'n defnyddio llawer llai o ynni na'r hyn y mae ei angen i gynhyrchu nwyddau newydd o ddeunyddiau crai.

Mae'n diogelu'r amgylchedd ac yn helpu taclo'r argyfwng hinsawdd.

Mae ailgylchu'n lleihau'r angen i echdynnu (cloddio, chwarelu a thorri coed), puro a phrosesu deunyddiau crai, sydd oll yn creu llygredd aer a dŵr ac yn difrodi cynefinoedd. Mae ailgylchu hefyd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, fel carbon deuocsid (CO_2), i helpu taclo newid hinsawdd.

Arbed arian
Mae ailgylchu'n costio llai na gwaredu gwastraff

Arbed ynni
Mae ailgylchu'n defnyddio llawer llai o ynni

Lleihau allyriadau
Mae ailgylchu'n achosi llai o nwyon tŷ gwydr, fel carbon deuocsid (CO_2)

Negeseuon allweddol

Gall defnyddio negeseuon cyson ar draws eich cyfathrebu helpu atgoffa staff ac ymwelwyr o beth i'w ailgylchu a sut i wneud yn gywir.

Negeseuon cyfarwyddiadau	Negeseuon ysgogi
Gwahanwch ac ailgylchwch eich: • gwastraff bwyd; • poteli a jariau gwydr; • metelau, plastigion a chartonau; a • cardfwrdd a phapur. Cadwch lygad allan am y biniau yn [ychwanegwch fanylion, e.e. wrth brif fynedfa'r safle]. Edrychwch ar yr arwyddion ar y biniau a gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r eitemau cywir yn y biniau. Rhowch yr eitemau yn y biniau'n rhydd, peidiwch â defnyddio bagiau plastig. Peidiwch â rhoi gwastraff ychwanegol wrth ymyl, neu ar ben, y biniau. Os bydd y biniau'n llawn, dywedwch wrthym drwy [nodwch sut i gysylltu]. Os ydych chi'n ansicr lle dylai rhywbeth fynd, gofynnwch i un o'n staff cyfeillgar.	Mae Cymru'n 2il yn y byd am ailgylchu; gadewch inni anelu at rif 1! Gwahanwch ac ailgylchwch eich gwastraff. Wyddoch chi fod Cymru'n 2il yn y byd am ailgylchu? Helpwch ni gyrraedd y brig drwy wahanu eich gwastraff i gael ei ailgylchu. Mae ailgylchu yn weithred fach gydag effaith fawr – helpwch i gadw ein safle'n lân ac yn wyrdd. Cofiwch wahanu eich gwastraff i'w ailgylchu. Mae ailgylchu'n lleihau llygredd, yn arbed ynni ac yn arbed adnoddau naturiol. Gwahanwch eich gwastraff a'i ailgylchu gan ddefnyddio'r biniau sydd ar gael. Mae eich ailgylchu'n adnodd gwerthfawr. Ar ôl eu casglu, mae poteli a jariau gwydr, metelau, plastigau a chartonau, a chardbord a phapur yn cael eu sortio, eu casglu mewn sypiau a'u cludo i ailbroseswyr i'w gwneud yn nwyddau newydd. Mae eich gwastraff bwyd yn cael ei gludo i gyfleuster treulio anaerobig lle mae'n cynhyrchu 'bio-nwy', sy'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio i gynhyrchu 'ynni gwyrdd' sy'n rhoi pŵer i gartrefi a chymunedau ledled y wlad.

Galwadau i weithredu

Gall defnyddio galwadau i weithredu effeithiol helpu annog pobl i weithredu. Er enghraifft:

- I gael gwybod mwy, ewch i: XXXXX ffoniwch: XXXX neu ebostiwch: XXXXX
- Dilynwch ni: XXXXXXXX

Defnyddio eich gwefan

Yn ogystal â'r asedau cyfathrebu ategol rydym wedi'u darparu i berchnogion parciau carafanau, meysydd gwersylla a pharciau gwyliau, rydym yn eich cynghori i ddefnyddio'r dulliau a llwyfannau cyfathrebu rydych eisoes yn eu rheoli bob dydd, i roi gwybod i ymwelwyr am eich cyfleusterau ailgylchu a sut i'w defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys eich gwefan, y cyfryngau cymdeithasol, hysbysiadau ac ebostiau cadarnhau llogi lle, a gwybodaeth friffio mewnol gyda staff a chontractwyr casgliadau.

Gwefan

Gall darparu crynodeb o wybodaeth am eich arferion ailgylchu fod yn ffordd ddefnyddiol o roi gwybodaeth hanfodol i ymwelwyr am yr hyn y gellir ei ailgylchu. Efallai y byddwch hyd yn oed eisiau datblygu tudalen we bwrpasol am eich cyfleusterau ailgylchu a hyrwyddo hyn trwy greu dolen benodol i'r dudalen hon, er enghraifft, www.gwersyll.org.uk/ailgylchu, i gyfeirio ymwelwyr yn uniongyrchol at y wybodaeth hon. Fel arall, efallai bod gennych dudalen we yn barod gyda gwybodaeth am eich nodweddion amgylcheddol neu gynaliadwyedd a gallech ychwanegu gwybodaeth ailgylchu ar gyfer eich safle(oedd) at hon.

Enghraifft o gynnwys tudalen we

Ailgylchu a rheoli gwastraff

Rydym yn ymroddedig i warchod ein hamgylchedd lleol a lleihau ein heffaith ar adnoddau er budd pawb. Mae Cymru'n 2il yn y byd am ailgylchu ar hyn o bryd; gadewch inni anelu at rif 1!

Rydym yn darparu biniau ailgylchu penodol ar gyfer:

- Gwastraff bwyd, gan gynnwys bwyd dros ben ac unrhyw wastraff a gynhyrchir wrth baratoi bwyd.
- Gwydr, fel poteli diodydd a jariau bwyd.
- Cardbord a phapur, fel hen bapurau newydd, cylchgronau a deunydd pacio.
- Caniau metel, tuniau, aerosolau gwag a ffoil glân.
- Poteli, potiau a thybiau plastig.
- Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak, a chwpanau coffi.

Yn syml, mae angen i ymwelwyr gadw eu hailgylchu ar wahân i'w gwastraff na ellir ei ailgylchu, yna rhoi'r eitemau rhydd yn y biniau cywir, sydd wedi'u nodi'n glir ac wedi'u lleoli mewn mannau penodol ar draws y safle.

Peidiwch â rhoi bagiau a deunydd lapio plastig yn y bin ar gyfer metelau cymysg, plastigau a chartonau gan na ellir eu hailgylchu. Mae rhai o'r eitemau hyn yn cael eu derbyn mewn mannau ailgylchu 'oddi cartref' mewn lleoliadau fel archfarchnadoedd. Ewch i cymruynailgylchu.org.uk i ddod o hyd i'ch cyfleuster agosaf. Os na allwch fynd â'r eitemau hyn i un o'r cyfleusterau hyn a bod angen i chi gael gwared arnynt ar y safle, rhowch nhw yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

Os ydych chi'n ansicr lle dylai rhywbeth fynd, gofynnwch i un o'n staff cyfeillgar pan fyddwch yn cyrraedd ein safle.

Pam ailgylchu?

- **Mae'n gyfraith!** Yng Nghymru mae'n ofynnol i bob busnes, corff sector cyhoeddus ac elusen ddarparu cyfleusterau casglu ar wahân ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy.
- **Mae gwahanu deunyddiau ailgylchadwy'n helpu gwella ansawdd a swm y deunyddiau a gesglir**. Mae hyn yn helpu cynyddu cyfraddau ailgylchu a bydd yn helpu Cymru fod yn genedl ailgylchu orau'r byd!
- **Mae'n lleihau gwastraff a gaiff ei anfon i dirlenwi ac i'w losgi**. Bydd hyn yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at leihau allyriadau carbon.
- **Mae'n cefnogi'r economi gylchol**. Trwy gynyddu swm ac ansawdd y deunyddiau eilgylch y gellir wedyn eu defnyddio gan weithgynhyrchwyr yng Nghymru a lleihau'r deunyddiau crai a ddefnyddir.
- **Mae'n arbed ynni**. Mae defnyddio deunyddiau eilgylch yn y broses weithgynhyrchu'n defnyddio llawer llai o ynni na'r hyn y mae ei angen i gynhyrchu nwyddau newydd o ddeunyddiau crai.
- **Mae'n diogelu'r amgylchedd ac yn helpu taclo'r argyfwng hinsawdd**. Mae ailgylchu'n lleihau'r angen i echdynnu (cloddio, chwarelu, a thorri coed), puro a phrosesu deunyddiau crai, sydd oll yn creu llygredd aer a dŵr ac sy'n difrodi cynefinoedd. Mae ailgylchu hefyd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, fel carbon deuocsid (CO_2), i helpu taclo newid hinsawdd.

Beth sy'n digwydd i'r deunyddiau ar ôl eu casglu?

Mae eich deunydd eilgylch yn adnodd gwerthfawr. Ar ôl eu casglu, mae poteli a jariau gwydr, metelau, plastigau a chartonau, a chardbord a phapur yn cael eu sortio, eu casglu mewn sypiau a'u cludo i ailbroseswyr i'w gwneud yn nwyddau newydd.

Mae eich gwastraff bwyd yn cael ei gludo i gyfleuster treulio anaerobig lle mae'n cynhyrchu 'bio-nwy', sy'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio i gynhyrchu 'ynni gwyrdd' sy'n rhoi pŵer i gartrefi a chymunedau ledled y wlad.

Cyfryngau cymdeithasol

Gellir defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cyfleusterau ailgylchu ar eich safle ac annog staff ac ymwelwyr i gael gwared ar eu gwastraff yn gywir.

Mae cynnwys sy'n atgyfnerthu'r camau rydych chi am i bobl eu cymryd yn hollbwysig, a gall defnyddio delweddau a fideos helpu i wneud rhannu gwybodaeth yn hawdd ac yn hwyliog.

Ased	Enghraifft o gopi ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
Darlun	Dewiswch bennawd perthnasol **Mae Gwersyllwyr yn llwyddo** **Mae Carafanwyr yn llwyddo** **Mae Ymwelwyr yn llwyddo** Gwahanwch ac ailgylchwch eich gwastraff bwyd, poteli a jariau gwydr, metelau, plastigion a chartonau a ddarperir ar ein safle.
Darlun	**Mae Cymru'n ail yn y byd am ailgylchu; gadewch inni anelu at rif 1!** Gwahanwch ac ailgylchwch eich gwastraff bwyd, poteli a jariau gwydr, metelau, plastigion a chartonau, a chardbord a phapur. Rhowch yr eitemau'n rhydd yn y biniau cywir, nid mewn bagiau plastig. Cadwch lygad allan am y biniau ailgylchu yn [ychwanegwch fanylion, e.e. wrth brif fynedfa'r safle].
Darlun	**Ailgylchu i helpu cadw ein safle'n lân a gwyrdd** Mae'n hawdd! Gwahanwch eich gwastraff bwyd, poteli a jariau gwydr, metelau, plastigion a chartonau, a chardbord a phapur oddi wrth eich gwastraff na ellir ei ailgylchu. Rhowch yr eitemau'n rhydd yn y biniau ailgylchu cywir, nid mewn bagiau plastig. A dyna ni.
Darlun	**Cofiwch ailgylchu eich gwastraff bwyd!** Gellir ailgylchu'r holl eitemau hyn yn y bin penodol ar gyfer gwastraff bwyd sydd wedi'i leoli yn [ychwanegwch fanylion, e.e. wrth brif fynedfa'r safle]: • hen fagiau te a gwaddodion coffi; • plisg wyau; • crwyn ffrwythau a chrafion llysiau; • cig a physgod amrwd ac wedi'u coginio, yn cynnwys esgyrn a phlisg; • crafion plât; • bwyd dros ben na ellir ei storio'n ddiogel i'w fwyta'n nes ymlaen; • bwyd nad yw'n ddiogel i'w fwyta mwyach; a • bwyd anifeiliaid anwes.
Dolen	Mewnosod [dolen i'r wefan]

Cyfryngau cymdeithasol, parhad

Cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, parhad...



Ased	Enghraifft o gopi ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
Darlun	**Cofiwch wahanu ac ailgylchu eich gwastraff** Cadwch lygad am y biniau sydd wedi'u labelu'n glir i ailgylchu eich: • gwastraff bwyd, gan gynnwys bwyd dros ben ac unrhyw wastraff a gynhyrchir wrth baratoi bwyd; • gwydr, fel poteli diodydd a jariau bwyd; • cardbord a phapur, fel hen bapurau newydd, cylchgronau a deunydd pacio; • caniau metel, tuniau, aerosolau gwag a ffoil glân; • poteli, potiau a thybiau plastig; a • cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak, a chwpanau coffi.
Darlun	**Wyddoch chi beth ellir ei ailgylchu ar ein safle ni?** Rydyn ni'n darparu biniau ailgylchu penodol ar gyfer casglu gwastraff bwyd, poteli a jariau gwydr, metelau, plastigau a chartonau, a chardbord a phapur ar wahân. Rhowch yr eitemau'n rhydd yn y biniau cywir, nid mewn bagiau plastig. Mae ailgylchu'n lleihau'r angen i echdynnu (cloddio, chwarelu a thorri coed), puro a phrosesu deunyddiau crai, sydd oll yn creu llygredd aer a dŵr ac yn difrodi cynefinoedd. Mae ailgylchu hefyd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, fel carbon deuocsid (CO_2), i helpu taclo newid hinsawdd. Helpwch ni gadw ein safle'n lân a gwyrdd.
Darlun	**Diolch am ailgylchu** Mae eich deunydd eilgylch yn adnodd gwerthfawr. Mae eich gwastraff bwyd yn cael ei gludo i gyfleuster treulio anaerobig lle mae'n cynhyrchu 'bio-nwy', sy'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio i gynhyrchu 'ynni gwyrdd' sy'n rhoi pŵer i gartrefi a chymunedau ledled y wlad. Ar ôl eu casglu, mae poteli a jariau gwydr, metelau, plastigau a chartonau, a chardbord a phapur yn cael eu sortio, eu casglu mewn sypiau a'u cludo i ailbroseswyr i'w gwneud yn nwyddau newydd.
Link	Mewnosod [dolen i'r wefan]

Cadarnhad llogi

Defnyddiwch eich ebostiau cadarnhau llogi, p'un ai drwy ebost neu lwyfan ar-lein, i baratoi a hysbysu ymwelwyr o'r arferion ailgylchu ar eich safle. Mae hyn hefyd yn helpu i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith a'ch ymroddiad i ailgylchu. Gallwch hefyd anfon copi electronig o'r Daflen Groeso (gweler tudalen 10).

Enghraifft ar gyfer ebost cadarnhau llogi lle

Pwnc: Eich cadarnhad llogi lle a Gwybodaeth Bwysig am eich arhosiad yn [Ychwanegwch enw'r safle].

Annwyl [Enw'r Ymwelwyr],

Diolch am ddewis dod i aros yn [Enw Safle]! Mae'n bleser cadarnhau eich bod wedi llogi lle ac edrychwn ymlaen at eich croesawu. Isod mae manylion y lle rydych wedi'i logi a gwybodaeth bwysig i sicrhau arhosiad dymunol.

Manylion llogi, e.e. rhif cadarnhad llogi, dyddiadau/amseroedd cyrraedd/gadael, nifer o westeion/ceir/cŵn/plant, ac ati.

Ewch draw i'n desg derbynfa pan fyddwch yn cyrraedd i gwblhau'r broses o gofrestru eich presenoldeb. Os bwriadwch gyrraedd ar ôl oriau agor, gadewch inni wybod ymlaen llaw i ni gael gwneud y trefniadau angenrheidiol [golygwch hwn yn ôl eich angen].

Ailgylchu a rheoli gwastraff

Yn [Enw Safle], rydym yn ymroddedig i ddiogelu a chynnal ein hamgylchedd lleol. Gofynnwn yn garedig i'n holl ymwelwyr ddilyn ein canllawiau ailgylchu pan fyddan nhw'n aros gyda ni.

Gwahanwch ac ailgylchwch eich gwastraff gan ddefnyddio'r biniau sydd wedi'u lleoli yn [ychwanegwch fanylion, e.e. ym mynedfa'r safle], os gwelwch yn dda. Edrychwch ar yr arwyddion ar y biniau, sydd wedi'u marcio'n glir, a defnyddiwch nhw i ailgylchu'r eitemau canlynol:

- gwastraff bwyd;
- poteli a jariau gwydr;
- metelau, plastigion a chartonau; a
- cardfwrdd a phapur.

Rhowch eitemau'n rhydd yn y biniau. Peidiwch â defnyddio bagiau plastig.

Gwastraff cyffredinol: Dylid cael gwared ar eitemau na ellir eu hailgylchu yn y biniau penodol ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

Os ydych chi'n ansicr lle dylai rhywbeth fynd, gofynnwch i un o'n staff cyfeillgar, a fydd yn barod iawn i'ch helpu.

Gwybodaeth Ychwanegol, e.e. oriau tawel, defnyddio barbeciws ac ati.

Oriau Tawel: O [Amser Dechrau Oriau Tawel] tan [Amser Gorffen Oriau Tawel].

Anogwn ein holl ymwelwyr i leihau eu gwastraff ac ailgylchu cymaint â phosibl. Trwy wneud hynny, gallwn oll gyfrannu at gynnal yr amgylchedd lleol o amgylch ein safle.

Mae eich ailgylchu yn gwneud gwahaniaeth MAWR yn [ardal leol]. Diolch i chi ymlaen llaw am wneud y peth iawn a chwarae eich rhan dros yr amgylchedd, drwy sortio eich gwastraff ac ailgylchu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu geisiadau arbennig, peidiwch ag oedi cysylltu â ni ar [manylion cysylltu â'r safle].

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn fuan!

[Llofnod yma]

Asedau cyfathrebu ategol

Rydym wedi datblygu asedau cyfathrebu rhad ac am ddim y gellir eu lawrlwytho i helpu i hyrwyddo'r cyfleusterau ailgylchu ar eich safle.

Taflen groeso – i'w rhannu gyda staff ac ymwelwyr, gyda chyfarwyddiadau am yr hyn y gellir ei ailgylchu, sut a ble ar y safle. Gellir argraffu neu rannu hon yn electronig.

Poster cyfarwyddiadau – i gadarnhau pa eitemau o wastraff y dylid eu gwahanu a'u hailgylchu. Gellir dangos hwn yn y mannau golchi llestri, derbynfa'r safle, caffis, wrth y biniau ailgylchu, ac ati.

Posteri arwyddion cynhwysyddion – i'w gosod ar y biniau ailgylchu i sicrhau eu bod wedi'u labelu'n glir a phwysleisio'r hyn y gellir ei ailgylchu ym mhob un.

Lawrlwytho adnoddau

Taflen Groeso

Gwnewch y cylchyn ailgylchu'n lleol i chi, rhowch enwau eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol chi, a rhowch eich logo yn y lleoedd a ddarperir. Am ragor o wybodaeth, gweler Canllawiau Brand Cymru yn Ailgylchu ac Ailgylchu Nawr 2021

Posteri Cyfarwyddiadau
Gwnewch y cylchyn ailgylchu'n lleol i chi a rhowch eich logo yn y lleoedd a ddarperir

Asedau cyfathrebu ategol

Posteri ysgogi – i annog pobl i ailgylchu. Gellir dangos y rhain ar giatiau mewn meysydd carafanau a gwersylla, derbynfeydd safleoedd, mannau cymunedol, ac ati.



Posteri Ysgogi

Gwnewch y cylchyn ailgylchu'n lleol i chi

Rhowch eich logo yma

Lawrlwytho adnoddau

Mwy o help a gwybodaeth

Mae **Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru** yn darparu canllawiau ymarferol ar sut i gyflawni'r gofynion i wahanu yn Rheoliadau Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.

Mae gwefan **Y Busnes o Ailgylchu** yn darparu canllawiau pellach am sut i gydymffurfio â'r gyfraith ynghyd â dolenni i adnoddau cyfredol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:
CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

wrapcymru.org.uk
busnesoailgylchu.com
CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

Y BUSNES O AILGYLCHU | THE BUSINESS OF RECYCLING | WRAP CYMRU

08/2024